

# MAE EICH PAFILIWN EICH ANGEN CHI



Ydych chi'n defnyddio'r pafiliwn?
Oes unrhyw un yn eich teulu yn defnyddio'r Pafiliwn ar gyfer un o'u grwpiau cymdeithasol?
Ydych chi wedi mwynhau Gŵyl Gwanwyn yn y Pafiliwn?

Yn ystod y flwyddyn, caiff y Pafiliwn ei ddefnyddio'n rheolaidd gan lawer o grwpiau – Clwb Ieuenctid – Clwb Dydd Llun – Clwb Crefftau – Clwb Cinio Dydd Gwener – Sefydliad y Merched a llawer mwy, yn ogystal â gwersi Cymraeg wythnosol gan Brifysgol Bangor. Caiff hefyd ei ddefnyddio'n aml gan Gyngor Conwy, Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Cymuned Dolwyddelan ayb ar gyfer Digwyddiadau er Gwybodaeth i'r Cyhoedd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pafiliwn hefyd wedi'i logi ar gyfer tua 10 dathliad preifat – partïon plant, pen-blwyddi, pen-blwyddi priodas, ymddeoliadau ayb (caiff cyfleusterau coginio a llestri eu darparu).

Hefyd, ers COVID, rydym wedi trefnu Gŵyl Gwanwyn bob yn ail flwyddyn gyda chrefftau a stondinau yn llawn pethau da, adloniant i blant, cestyll neidio a hwyl i'r teulu cyfan.

Pam ein bod ni'n rhannu hyn gyda chi?
Oherwydd rydym ni'n chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â'n tîm.

Tydw i ddim yn meddwl y bydd unrhyw un sy'n rhan o'r gwaith o edrych ar ôl y Pafiliwn yn malio fy mod i'n rhannu ein bod ni, fel grŵp, yn heneiddio! Ac mae'r dasg o drefnu digwyddiadau a gwneud yn siŵr bod y Pafiliwn yn dal i fynd yn mynd yn anoddach bob blwyddyn. Rydym ni'n parhau i fynd gyda'r gwaith gan ein bod ni'n gwybod faint mae'r cyfleuster yn ei olygu i gymaint o bobl.

Ydych chi'n newydd i'r pentref? Wedi ymddeol yn ddiweddar? Eisiau cymryd mwy o ran yn nigwyddiadau'r pentref? Gyda sgiliau rydych chi'n teimlo byddai'n ddefnyddiol i'r tîm? Neu a oes gennych chi syniadau am brosiectau neu ddigwyddiadau newydd i'r pentref? Os felly, cysylltwch gyda ni.

## MAE EICH PAFILIWN EICH ANGEN CHI!

Rydym ni'n grŵp cyfeillgar  o bobl sy'n meddwl am y gymuned, sy'n chwilio am aelodau newydd a brwdfrydig. Rydym ni'n cynnal 6 cyfarfod y flwyddyn (mwy pan fydd angen) sy'n para tua 2 awr er mwyn rhannu syniadau, awgrymu gwelliannau a chadw'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan (ystafell TG) ar fynd yn gyffredinol.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar y 26$^{ain}$ o Fehefin am 7:30yh yn y Pafiliwn, mae croeso mawr ichi ymuno â ni, neu gallwch chi ofyn i unrhyw un o'r aelodau rydych chi'n eu hadnabod am fwy o wybodaeth.